# CLASS Cymru

## Llunio adnodd ar-lein ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal

### Crynodeb Gweithredol

Hannah Bayfield

Tachwedd 2022



# Partneriaeth Seilwaith CASCADE

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

SAIL DATABANK

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Centre for Trials Research
Canolfan Ymchwil Treialon

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
School of Psychology
Ysgol Seicoleg

Mae ein harbenigedd yn dod â phartneriaeth eithriadol ynghyd. CASCADE yw'r brif ganolfan ar gyfer ymchwil werthusol ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU. Mae'n rhan o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), sef canolfan ragoriaeth flaenllaw yn y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwil addysg sydd ag arbenigedd penodol mewn dulliau meintiol. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) yn arweinydd cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer treialon a dulliau cysylltiedig. Roedd yr Ysgol Seicoleg yn 2il am ansawdd ymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf ac mae SAIL yn cynnig cysylltiadau data o'r radd flaenaf. Gyda'n gilydd credwn y gallwn greu newid sylweddol yn ansawdd ymchwil gofal cymdeithasol plant sydd heb ei hail yn y DU a sut caiff ei defnyddio. Yn benodol, gallwn gynnig treialon a gwerthusiadau o ansawdd uchel; cysylltu data er mwyn deall canlyniadau tymor hir, a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth (ein cyhoedd) ym mhob rhan o'n hymchwil. Rydym am i'r tair elfen hyn ryngweithio â'i gilydd i gynhyrchu ymchwil heb ei hail.

# Cynnwys

Crynodeb....3

Cyflwyniad....4

Datblygu gwefan CLASS Cymru....5

Dyfodol CLASS Cymru....7

Nodyn Terfynol....8

Awduron a Chyfranwyr....9

# Crynodeb

Yn deillio o ymchwil yn CASCADE a oedd yn edrych ar fynediad i, a llwyddiant mewn, Addysg Uwch (AU) ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, mae CLASS Cymru yn wefan sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol a dyluniwyd i helpu i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru wrth iddynt symud ymlaen i'r brifysgol. Gydag arweiniad clir a syml, dyma siop dan yr unto sy’n galluogi gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc eu hunain i ddod o hyd i’r wybodaeth a’r arweiniad perthnasol er mwyn cefnogi’r cyfnod pontio allweddol hwn.

Ariennir y prosiect hwn gan linyn Arloesedd i Bawb Prifysgol Caerdydd.

**Nod ac amcanion**

- Dylunio a chreu gwefan a fydd yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a’r rhai sy’n eu helpu i bontio i addysg uwch.
- Defnyddio canfyddiadau ymchwil rhagarweiniol i lunio cynnwys perthnasol i garfanau pwysig, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gweithwyr cymdeithasol, staff addysg (yn yr ysgol, Addysg Bellach (AB) a Lefel AU) a gofalwyr maeth.
- Cynhyrchu cynnwys ar y cyd â’r grwpiau defnyddwyr hyn.
- Penodi rhywun i ddylunio gwefan hawdd ei defnyddio ar gyfer y cynnwys hwnnw.
- Gwerthuso’r wefan hon cyn ei rhoi ar waith.

**Canlyniadau Disgwyliedig**

- Datblygu gwefan CLASS Cymru, mewn ymgynghoriad â defnyddwyr y dyfodol.
- Defnydd o'r wefan gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, staff prifysgol ac eraill.
- Parhau â datblygiad y wefan y tu hwnt i gyfnod y prosiect, gydag adolygiadau blynyddol o gynnwys a hawster ei defnydd yn cael eu hwyluso gan CLASS Cymru.
- Gwell polisi ac ymarfer ynghylch Ehangu Mynediad a Chyfranogiad mewn AU ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal.
- Codi ymwybyddiaeth, yn enwedig ymhlith staff addysg, o anghenion a phrofiadau posibl eu myfyrwyr.

# Cyflwyniad

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o brosiect CLASS Cymru, a leolir yn CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd.. Mae'n cael ei ariannu trwy Arloesedd i Bawb ac mae wedi deillio o ymchwil yn CASCADE sy'n archwilio mynediad i Addysg Uwch a llwyddiant mewn Addysg Uwch o ran pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru.

## Arloesedd i Bawb

Mae Arloesedd i Bawb yn ffrwd ariannu a ddosberthir gan Brifysgol Caerdydd ac a gefnogir gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Roedd y prosiect hwn yn derbyn Cyllid Kickstart Cronfa Effaith Arloesedd i Bawb yn 2021.

## CLASS Cymru

Ystyr CLASS Cymru yw Gweithgareddau i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Chymorth i Fyfyrwyr yng Nghymru. Dechreuodd CLASS Cymru tua 10 mlynedd yn ôl fel rhwydwaith i rannu arfer gorau o ran cefnogi pobl sy'n gadael gofal yn y brifysgol. Mae'r rhwydwaith wedi chwarae rhan gyson yn yr ymchwil sy'n sail i'r prosiect hwn, ac mae hefyd yn rhoi ei enw i'r wefan orffenedig.

## Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac AU

Ym mis Hydref 2019, ariannwyd y prosiect 'Deall profiadau addysg uwch pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru' gan YIGC (£295,618) ar ôl cwblhau tendr cystadleuol yn llwyddiannus. Mae'r prosiect wedi adeiladu ar ymchwil flaenorol gan gynnwys yr hyn a gynhaliwyd gan Mannay et al. (2016; 2017) yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, a argymhellodd y gellid gwella profiadau addysgol pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda gwell mynediad i adnoddau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig ag addysg (Mannay et al. 2015).

Mae'r prosiect wedi cael ei gynnal o fewn CASCADE. Mae wedi ymgynghori â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal (n=22) ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol (n=25) o'r sectorau AU ac AB, Awdurdodau Lleol a staff y trydydd sector i archwilio'r cymorth yng Nghymru i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael mynediad i AU a llwyddo ynddi.

Yn y prosiect hwn mae pobl ifanc ac ymarferwyr wedi tynnu sylw at ddiffyg cyfeirio clir ar-lein wrth archwilio posibiliadau addysg uwch, ac awydd i gael rhywle dibynadwy i ddod o hyd i wybodaeth a chyngor.

Mae'r canfyddiadau allweddol canlynol o'r ymchwil hon wedi arwain at gynnig a datblygu gwefan CLASS Cymru:

- Yn aml, nid yw pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n eu cefnogi yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth benodol, gyfredol am AU.
- Yn aml, mae gan Sefydliadau AU gyfoeth o wybodaeth ar gael ar-lein, ond nid yw bob amser yn hawdd llywio trwyddi.
- Mae awydd i gydweithio ledled Cymru i wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch.

# Datblygu gwefan CLASS Cymru

Gan ddechrau ym mis Hydref 2021, ac yn dilyn cymeradwyaeth foesegol gan Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, ffurfiwyd grwpiau ymgynghori o gyfranogwyr ymchwil blaenorol, aelodau rhwydwaith CLASS Cymru a myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal. Ymgynghorwyd â'r grwpiau hyn ar dri phrif gam datblygu gwefan:

- Syniadau am y cynnwys
- Adolygu cysyniadau dylunio
- Adolygu'r cynnwys cyffredinol

At sail canfyddiadau ymchwil, cynhaliwyd grwpiau ffocws cychwynnol i ddrafftio syniadau am gynnwys y wefan. Ym mis Ionawr 2022, cynhaliwyd grwpiau ar-lein gyda thri myfyriwr â phrofiad o ofal ac wyth gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc â phrofiad o ofal. O fewn y grwpiau hyn trafodwyd trosolwg o'r prosiect ynghyd â thrafodaeth fwy penodol ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys ar y wefan.

Cafodd syniad cychwynnol ei dreialu lle byddai'r wefan yn seiliedig ar bum cam allweddol y daith i AU, lle gofynnwyd beth mae angen i bobl sydd â phrofiad o ofal ei wybod:

- Cyn hyd yn oed meddwl am fynd i'r brifysgol?
- Wrth wneud cais i brifysgol?
- Yn ystod y cyfnod pontio i'r brifysgol?
- Yn ystod eu hamser yn y brifysgol?
- Ar ôl y brifysgol?

Roedd rhai o'r sylwadau a gododd yn cynnwys yr angen am gymorth lle mae pobl ifanc â phrofiad o ofal yn troi'n 18 oed ond yn dal i fod yn yr ysgol; ni waeth a yw cynigion cyd-destunol yn berthnasol i gymwysterau fel BTEC; hygyrchedd cyllid ac effaith statws myfyrwyr ar fudd-daliadau; ac am fwy o gymorth a dealltwriaeth gan oedolion perthnasol (fel Cynorthwywyr Personol ac athrawon). Ar sail yr adborth a gafwyd trwy'r grwpiau ffocws hyn, mae Tabl 1 yn dangos y cynllun cychwynnol ar gyfer cynnwys y wefan.

| Cyn ystyried mynd i'r brifysgol | Gwneud cais am brifysgol | Pontio i'r brifysgol | Yn ystod eu hamser yn y brifysgol | Ar ôl y brifysgol |
|---|---|---|---|---|
| Pam ystyried mynd i'r brifysgol | Gwneud dewisiadau | Paratoi ar gyfer y brifysgol | Bywyd myfyrwyr | Graddio |
| Â phwy y dylech chi siarad? | Bwrsariaethau a chyllid | Opsiynau blwyddyn allan | Gofal personol | Swyddi |
| | | Newid cynlluniau | | Astudiaethau Pellach |
| | | Rhestrau gwirio | | Budd-daliadau a Chymorth ALl |
| *Dolenni* | *Dolenni* | *Dolenni* | *Dolenni* | *Dolenni* |


Tabl 1 Penawdau a chwymplenni'r wefan

Yn ogystal â'r dull llinell amser, nododd cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol cynnwys dolenni uniongyrchol i wybodaeth ar gyfer cynulleidfaoedd allweddol. Felly dyluniwyd hafan y wefan i gynnwys dolenni uniongyrchol i wybodaeth ar gyfer y grwpiau canlynol, gan nodi "Rwy'n chwilio am wybodaeth ar gyfer..."

- Amdanaf i
    - Rwyf yn yr ysgol/coleg ar hyn o bryd
    - Nid wyf mewn addysg ar hyn o bryd
    - Rwyf dros 25 oed
- Rhywun rwy'n ei gefnogi
    - Gwybodaeth i ofalwyr maeth
    - Gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol a Cynorthwywyr Personol
    - Gwybodaeth i athrawon
    - Gwybodaeth i staff y brifysgol

Datblygwyd adnoddau penodol y gellir eu lawrlwytho sy'n berthnasol i'r grwpiau hyn. Cyn y grwpiau ffocws cychwynnol, gwnaethom gysylltu â Frank Duffy[1], arbenigwr dylunio graffeg yn Ne Cymru, i ddylunio'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho a'r wefan. Fe wnaethant ddatblygu tri chysyniad cychwynnol a oedd yn sail i'r rownd nesaf o drafodaethau'r grwpiau ffocws.

Ym mis Ebrill 2022, ailgynullwyd y grwpiau ymgynghori o bobl â phrofiad o ofal a gweithwyr proffesiynol i drafod dyluniadau ar gyfer y wefan (gellir gweld y cysyniadau dylunio cychwynnol yn Ffigur 1).




Ffigur 1: Cysyniadau dylunio'r wefan gan Frank Duffy

Un canfyddiad allweddol o'r rownd hon o grwpiau ffocws oedd, er bod gweithwyr proffesiynol yn hoffi'r enw Uni:Care (enw cychwynnol y prosiect hwn), roedd aelodau â phrofiad o ofal o'r grwpiau ymgynghori yn ei wrthwynebu'n gryf, ac yn gofyn am enw nad oedd yn cynnwys 'gofal' yn y teitl.

[1] https://frankduffy.co.uk/

Dyma sut y newidiwyd yr enw i CLASS Cymru, i adlewyrchu cynnwys y safle heb gysylltiad amlwg â phrofiad o ofal. Yna cafodd dyluniadau i'r wefan eu mireinio ymhellach ar sail adborth ynghylch y cynllun, y cynlluniau lliw, y ffotograffiaeth a'r darlunio.

[2]Parhaodd y gwaith rhwng CASCADE, Frank Duffy a'r datblygwr gwe Gwyn Fisher trwy gydol haf 2022 i gwblhau gwefan CLASS Cymru, gyda fersiynau ychwanegol yn cael eu rhannu â grwpiau ymgynghori i gael adborth. Mae'r tudalennau i gyd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ym mis Hydref 2022,aeth gwefan CLASS Cymru[3] yn fyw, a chafodd ei lansio gyda digwyddiad yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Gyda'r cyfranogwyr yn cynnwys ymarferwyr, myfyrwyr a phobl ifanc â phrofiad o ofal, academyddion a staff elusennol, rhoddodd y digwyddiad drosolwg o CLASS Cymru a'r ymchwil ehangach yr oedd yn seiliedig arni, yn ogystal â rhoi cyfle i'r cyfranogwyr rwydweithio a chreu cysylltiadau newydd.




Ffigur 2: Hafan CLASS Cymru

# Dyfodol CLASS Cymru

Ar hyn o bryd mae gwefan CLASS Cymru yn cael ei hariannu hyd at Hydref 2024 a bydd yn cael ei chynnal gan staff CASCADE a Chanolfan Bywyd y Myfyrwyr. Gan roi ystyriaeth reolaidd i brofiad y defnyddiwr, bydd y wefan yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r hyn y mae defnyddwyr yn ei gael yn ddefnyddiol. Gellir cysylltu â'r tîm trwy'r ffurflen gyswllt ar y wefan neu drwy e-bostio info@classcymru.co.uk. Mae'r holl adnoddau sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan hefyd ar gael ar ffurf copïau caled a gellir gofyn amdanynt trwy'r e-bost uchod.

[2] https://agaveweb.com/
[3] https://classcymru.co.uk/

# Nodyn Terfynol

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn, na fyddai wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth pobl ifanc â phrofiad o ofal, rhwydwaith CLASS Cymru a'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect ar bob cam.



# Awduron a Chyfranwyr

Hannah Bayfield

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), Prifysgol Caerdydd

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant

Prifysgol Caerdydd
sbarc I spark
Heol Maendy, Caerdydd
CF24 4HQ

CASCADE@caerdydd.ac.uk